

Ysgol Cybi

Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion / *Schools Records Management Policy*

(Fersiwn 1, Ebrill 2022 / *Version 1, April 2022*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure the effective management of records.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / Version	Dyddiad / Date	Crynodeb o newidiadau / Summary of changes	Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / Date Accepted by Board of Governors
F1 / V1	Ebrill 2022 / <i>April 2022</i>	Polisi newydd / <i>New policy.</i>	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / Date of next review	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / <i>This policy will be reviewed in:</i>	Ebrill 2025 / <i>April 2025</i>
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / <i>The review will be undertaken by:</i>	Swydddog Diogelu Data Ysgolion / <i>Schools Data Protection Officer</i>

Manylion Cyswllt:

Swydddog Diogelu Data Ysgolion

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Telephone: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Templod polisi ar reoli cofnodion yn effeithiol o fewn yr ysgol.

Document: *Policy template on effective management of records within the school.*

Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb llywodraethwyr yr ysgol a'r Pennaeth fel y Rheolydd Data yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac yn rheoli cofnodion yn effeithiol.

Responsibility: *It is the responsibility of the school governors and the Headteacher as the Data Controller to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with data protection legislation and effectively manages records.*

1. Datganiad Polisi	4
2. Sgôp	4
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau	5
4. Diffiniadau	5
5. Cyfrifoldebau	7
5.1 Corff Llywodraethu'r Ysgol	7
5.2 Pennaeth (a/neu'r Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)	7
5.3 Holl Staff yr Ysgol	7
5.4 Swydddog Diogelu Data Ysgolion	7
6. Polisi Rheoli Cofnodion: Pum Pwynt Allweddol	8
7. Egwyddorion Rheoli Cofnodion	8
8. Manteision Rheoli Cofnodion yn Effeithiol	9
9. Cywirdeb a Pherthnasedd	10
10. Cysondeb	11
11. Rheoli Fersiynau	11
12. Cofnodi Data	11
13. Hygyrchedd Cofnodion	12
14. Cadw Cofnodion	12
15. Dosbarthiad Gwybodaeth Bersonol	13
16. Statws Cofnod	14
17. Storio Cofnodion yn Ddiogel	14
18. Gwaredu Cofnodion yn Ddiogel	15
19. Cofnodion Disgyblion	15
20. Cofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA)	15
21. Rhestr o Asedau Gwybodaeth	17
22. Monitro Cydymffurfiaeth	17
23. Adferiad Trychinebau a Pharhad Busnes	17
24. Hyfforddiant Staff	17
25. Mynd yn Erbyn y Polisi	18
26. Trefniadau Adolygu Polisi ac Arolygiaeth	18
ATODIAD A - Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion - Rhestr Wirio'r Pennaeth	19
English Version	21

1. Datganiad Polisi

Mae'r ysgol yn cydnabod pwysigrwydd rheoli cofnodion yn effeithlon ac yn effeithiol i gefnogi ei swyddogaeth; gallu cydymffurfio â'i rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoliadol ac ar gyfer rheoli'r ysgol yn gyffredinol yn effeithiol.

Mae rheoli cofnodion yn ddamcaniaeth a methodoleg sefydledig ar gyfer sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu rheoli'n systematig a'r wybodaeth y maent yn ei chynnwys drwy gydol eu cylch bywyd.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'n mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â rolau, cyfrifoldeb ac atebolrwydd mewn perthynas â rheoli cofnodion yn ogystal â darparu fframwaith ar gyfer rheoli cofnodion yn effeithiol.

Diffinnir rheoli cofnodion fel rheolaeth effeithlon a systematig o greu, derbyn, rheoli fersiynau, cynnal a chadw, defnyddio, dosbarthu, ffeilio, cadw, storio a gwaredu cofnodion mewn ffordd sy'n weinyddol ac yn gyfreithiol gadarn ac sy'n diwallu anghenion yr ysgol yn ogystal â chadw cofnod hanesyddol digonol.

Mae cofnodion yn darparu tystiolaeth ar gyfer diogelu hawliau a buddiannau cyfreithiol yr ysgol, ac yn darparu tystiolaeth ar gyfer dangos perfformiad ac atebolrwydd. Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer cyflawni ac archwilio'r rheolaeth effeithiol hon.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gofnodion a grëwyd, a dderbynnir ac a gynhelir gan aelodau o staff yr ysgol, gweithwyr parhaol a dros dro, contractwyr, gwirfoddolwyr, ymgynghorwyr, llywodraethwyr ac unrhyw thrydydd parti sydd â mynediad i gofnodion ysgol, dogfennau a chyfleusterau prosesu gwybodaeth sy'n ymwneud â busnes yr ysgol, lle bynnag y lleolir y rhain.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i reoli'r holl ddogfennau a chofnodion, ym mhob fformat neu gyfrwng technegol neu gorfforol, a grëwyd neu a dderbynnir gan yr ysgol sy'n hwyluso ac yn cefnogi gweithgareddau busnes yr ysgol. Gall y cofnodion hyn fodoli ar ffurf printiedig neu ddigidol ac fe'u cedwir am gyfnod diffiniedig i ddarparu tystiolaeth o drafodion a gweithgareddau'r ysgol.

Diffinnir cofnodion fel gwybodaeth a grëwyd, a dderbynnir, ac sy'n cael ei chynnal fel tystiolaeth a gwybodaeth gan sefydliad neu berson, yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol neu wrth drafod busnes.

Cofnod yw gwybodaeth a gofnodir, ar unrhyw ffurf, gan gynnwys data mewn systemau cyfrifiadurol ac mae'n cwmpasu cofnodion gweinyddol ac ariannol. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, mae enghreiffiau o eitemau a all fod yn gofnodion yn cynnwys:

- dogfennau (gan gynnwys dogfennau ysgrifenedig a theipio a chopïau wedi'u anodi);
- ffeiliau cyfrifiadurol (gan gynnwys ffeiliau prosesydd geiriau, cronfeydd data, taenlenni a chyflwyniadau);

- ffeiliau papur;
- negeseuon post electronig;
- recordiadau sain;
- ffilm CCTV (os yw'n berthnasol);
- ffilm;
- ffotograffau;
- cofnodion dyddiadur;
- negeseuon ffacs;
- datganiadau i'r wasg;
- agendâu, cofnodion a phapurau busnes;
- adroddiadau;
- gohebiaeth;
- polisïau a chanllawiau;
- mewnrwyd a thudalennau gwe'r rhyngwrwyd.

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)*, *Deddf Diogelu Data 2018* a *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*. Mae'r polisi hefyd yn seiliedig ar *Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004*.

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) gan gynnwys '*Section 46 Code of Practice – records management*'.

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion; Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion; Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifau Ynys Môn, Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion a'r Cyfnodau Cadw Ysgolion*.

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Gwybodaeth am gofnodion troseddol	Gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau, honiadau, achosion a mesurau diogelwch cysylltiedig.
Rheolydd data	Y bobl neu'r sefydliadau sy'n pennu'r pwrpasau dros brosesu data personol, ac ym mha fodd y caiff ei brosesu. Mae gan y

	rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu ymarferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Yr ysgol yw'r rheolydd data.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef.
Gwybodaeth trydydd parti	Trydydd parti yw rhywun nad yw'n rheolwr data, yn brosesydd data nac yn wrthrych y data.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, derbyn, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, cadw, diwygio, addasu, newid, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, cael gwared â gwybodaeth, ei defnyddio neu gwneud unrhyw beth â hi.
Caniatad	Gan wrthrych y data yn golygu unrhyw fynegiad a roddwyd yn rhydd, penodol, gwybodus ac eglur o ddymuniadau gwrthrych y data lle mae ef neu hi, drwy ddatganiad neu drwy weithred gadarnhaol glir, yn mynegi cytundeb i brosesu data personol yn ymwneud ag ef neu hi. Mae'r faich o fynegi cydsyniad ar y rheolydd data.
Digwyddiad Diogelwch Data	Toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial ar gyfer difrod neu ofid. Nodweddir risg yn aml drwy gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.
Effaith	Beth yw canlyniadau'r risg pe bai'n digwydd. Ystyrir bod effaith naill ai'n cael effaith uniongyrchol neu effaith yn y dyfodol.
Rheoli	Mesur sy'n addasu risg.
Ffugenwi	Y broses lle prosesir gwybodaeth bersonol mewn ffordd na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gadwir ar wahân ac yn amodol ar fesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli gwybodaeth bersonol i unigolyn a ellir ei adnabod.
Gwybodaeth Ddienw	Cael gwared â gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod rhywun oddi ar rywbeth (megis data cyfrifiadur) fel na ellir gwybod beth oedd y ffynhonnell wreiddiol na'i hadnabod.
Cywirdeb	Cadw'r wybodaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn ddilys.
Anawdurdodedig	Heb hawl cyfreithlon.
Systemau Gwybodaeth	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
E-bost	Negeseuon a ddosberthir drwy ddulliau electronig o un defnyddiwr cyfrifiadur i un neu fwy o dderbynwyr drwy rwydwaith. Yn ogystal â chynnwys testunol, mae e-bost yn caniatáu i'r anfonwr anfon ffotograffau, fideo neu gliopiau sain ar ffurf neu ffeiliau digidol.
Archif	Cofnodion sydd wedi'u dewis ar gyfer cadwraeth hirdymor oherwydd eu gwerth parhaus fel tystiolaeth neu fel ffynhonnell ar gyfer ymchwil hanesyddol neu ymchwil arall.
Adneuo cofnodion	Gellir adneuo cofnodion ar fenthyciad amhenodol ac os felly mae'r adneuwyr yn cadw perchnogaeth ar y cofnodion. Mae gan

	adnewyr yr hawl i dynnu eitemau'n ôl dros dro at ddibenion cyfreithiol, cyfeirnod neu arddangosfa.
--	--

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol

Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi hwn wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan yr ysgol;
- monitro cydymffurfiaeth ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol mewn perthynas â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol ddangos tystiolaeth o gydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Pennaeth (a/neu Unigolyn sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)

Mae'r Pennaeth a/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn;
- cynnal archwiliadau mewnol sy'n monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn;
- monitro trefniadau diogelwch;
- sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion* a bod yr ysgol yn cynnal gweithgareddau cadw tŷ rheolaidd;
- sicrhau bod gan yr ysgol Gynllun Adfer a Pharhad Trychinebau ar waith;
- pennu lefel y mynediad i gofnodion penodol sy'n cael ei rhoi i unigolion penodol;
- sicrhau bod lefelau dosbarthu a statws dogfennau yn cael eu defnyddio'n briodol;
- sicrhau bod rheolaethau fersiwn yn cael eu defnyddio ar gyfer pob cofnod;
- sefydlu a chynnal Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA);
- sefydlu a chynnal Rhestr o Asedau Gwybodaeth.

5.3. Holl staff yr Ysgol

Mae'r holl staff a gyflogir neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dosbarth a staff cymorth busnes, yn gyfrifol am:

- sicrhau bod cofnodion y maent yn gyfrifol amdanynt yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cadw a'u gwaredu yn unol â chanllawiau rheoli cofnodion yr ysgol;
- rheoli gwybodaeth a grëwyd neu a ddefnyddir yn effeithiol;
- cydnabod a deall gwerth cofnodion a'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol sy'n llywodraethu eu defnydd a'u cadw;
- ymdrin â gwybodaeth yn briodol ac yn unol â'r lefelau dosbarthu a statws y ddogfen;
- cydymffurfio'n llawn â'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion*.

5.4. Swydddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- fonitro cydymffurfiaeth a pherfformiad yr ysgol yn erbyn y polisi hwn;
- monitro trefniadau rheoli cofnodion o fewn yr ysgol;
- rhoi arweiniad i'r ysgol ynghylch arferion rheoli cofnodion da.

6. Polisi Rheoli Cofnodion: Pum Pwynt Allweddol

Nodau'r Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion yw:

- **bod y cofnod yn bresennol** - mae gan yr ysgol yr wybodaeth sydd ei hangen fel tystiolaeth o weithgareddau neu drafodion sydd wedi digwydd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r ysgol greu cofnodion sy'n ffit i bwrpas;
- **gellir gweld y cofnod** - gellir lleoli a chael gafael ar wybodaeth, a'i harddangos mewn ffordd sy'n gyson â'r defnydd cychwynnol ac adnabyddir y fersiwn gyfredol lle mae fersiynau lluosog yn bodoli;
- **gellir dehongli'r cofnod** - gellir sefydlu cyd-destun y cofnod - pwy greodd y ddogfen a phryd, a sut mae'r cofnod yn gysylltiedig â chofnodion eraill;
- **gellir ymddiried yn y cofnod** - mae'r cofnod yn ddibynadwy yn cynrychioli'r wybodaeth a ddefnyddiwyd neu a grëwyd mewn gwirionedd, a gellir dangos ei chyfanrwydd a'i dilysrwydd;
- **gellir cadw'r cofnod drwy amser** - gellir cadw rhinweddau hygyrchedd, dehongli ac ymddiriedolaeth ynddynt cyhyd â bod angen y cofnod, efallai'n barhaol, er gwaethaf newidiadau mewn fformatau.

7. Egwyddorion Rheoli Cofnodion

Egwyddor sylfaenol rheoli cofnodion yw sicrhau bod cofnod yn cael ei reoli drwy ei gylch bywyd o greu neu dderbyn, drwy gynnal a chadw a defnyddio, i'w waredu.

Mae rheoli cofnodion da yn dibynnu ar y canlynol:

- creu cofnodion priodol;
- dal cofnodion (a dderbyniwyd neu a grëwyd) mewn systemau cadw cofnodion;
- cynnal a chadw'r cofnodion hyn yn briodol;
- adolygu gwybodaeth yn rheolaidd;
- cadw gwybodaeth dan reolaeth;
- dinistrio gwybodaeth dan reolaeth.

Dylai cofnodion gynnwys y rhinweddau canlynol:

- **dilysrwydd** - dylai fod yn bosibl adnabod, ac yn ddelfrydol profi, y broses a greodd y cofnod a phwy oedd ei greawdwr awdurdodedig;
- **cyflawnrwydd** - dylai'r cofnod gynnwys yr holl gynnwys sydd ei angen i weithredu fel tystiolaeth o'r trafodyn y mae'n ei ddogfennu. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i un cofnod gynnwys *popeth* y mae'n ymwneud ag ef; dim ond ei fod wedi'i gwblhau yn ei delerau ei hun;
- **dibynadwyedd** - mae'n bwysig dibynnu ar gynnwys y cofnod fel cynrychiolaeth gywir o'r trafodyn y mae'n ei ddogfennu.

Mae Safonau Rhyngwladol yn nodi bod rheoli cofnodion yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- gosod polisiau a safonau;
- pennu cyfrifoldebau ac awdurdodau;
- sefydlu a hyrwyddo gweithdrefnau a chanllawiau;
- darparu ystod o wasanaethau sy'n ymwneud â rheoli a defnyddio cofnodion;
- dylunio, gweithredu a gweinyddu systemau arbenigol ar gyfer rheoli cofnodion; a
- integreiddio rheoli cofnodion mewn systemau a phrosesau busnes.

Rhaid i gofnodion feddu ar:

- **gynnwys** (h.y. gwybodaeth neu ddata);
- **cyd-destun** (h.y. rhaid iddo fod yn bosibl canfod sut mae'n ymwneud â chofnodion eraill ac i'r ysgol);
- **strwythur** (h.y. rhaid cael rhesymeg gynhenid i'r ffordd y mae'r wybodaeth wedi'i chynnwys).

Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r ysgol reoli cofnodion yn briodol yn unol â deddfwriaeth.

8. Manteision Rheoli Cofnodion yn Effeithiol

Bydd cynnal arferion rheoli cofnodion priodol ac effeithiol yn helpu'r ysgol i gyflawni a chwrdd â'i dyletswyddau statudol. Drwy fabwysiadu'r polisi hwn, nod yr ysgol yw sicrhau bod cofnodion, ym mha bynnag ffurf, yn gywir, yn ddibynadwy, yn drefnus, yn gyflawn, yn ddefnyddiol, yn gyfoes ac yn hygyrch.

Drwy gadw at y polisi hwn, bydd yr ysgol yn elwa o gael cofnodion sydd:

- yn gallu cael eu lleoli, eu cyrchu a'u hadalw'n hawdd ac yn effeithlon;
- â chynnwys y gellir ei gyrchu, ei ddefnyddio a'i aildefnyddio mewn modd rheoledig ac effeithlon;
- â gwybodaeth sy'n cael ei diogelu'n well a'i chynnal a'i chadw'n ddiogel;
- yn cael eu gwaredu'n ddiogel ac ar yr adeg gywir ac yn cael eu gwaredu mewn ffordd y gellir ei harchwilio, ac sy'n bodloni'r holl ofynion amgylcheddol a gofynion eraill;
- â'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir;
- yn helpu'r ysgol i gynnal ei busnes;
- yn helpu'r ysgol i wneud penderfyniadau gwybodus;
- yn diogelu hawliau gweithwyr, disgyblion, rhieni a'r cyhoedd;
- yn olrhain newidiadau a datblygiad polisi;
- yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion deddfwriaeth, rheoliadol a statudol perthnasol;
- yn darparu tystiolaeth a llwybr archwilio i fodloni gofynion busnes, rheoleiddio a chyfreithiol;
- yn cefnogi parhad a chysondeb o ran rheoli a gweinyddu;
- yn sicrhau bod yr ysgol yn agored, yn dryloyw ac yn ymatebol;
- yn cefnogi ymchwil a datblygu; a

- yn hyrwyddo cyflawniadau'r ysgol.

Bydd yr ysgol yn adnabod ac yn rheoli risgiau rheoli cofnodion. Mae rheoli cofnodion yn effeithlon yn galluogi'r ysgol i reoli risg ac o ganlyniad yn:

- lleihau nifer y digwyddiadau mewn parhad busnes a meysydd sy'n hanfodol i fusnes oherwydd nad ydynt yn gallu dod o hyd i gofnodion craidd;
- lleihau'r risg o beidio â bodloni gofynion statudol;
- lleihau'r risg y bydd digwyddiadau diogelwch data yn digwydd;
- atal mynediad heb awdurdod i wybodaeth sydd wedi'i chyfyngu.

9. Cywirdeb a Pherthnasedd

Mae rheoli cofnodion yn dda yn sicrhau bod gan yr ysgol hyder yn nilysrwydd a chywirdeb yr wybodaeth. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl gofnodion yn gywir, yn gyfoes, yn berthnasol, yn ddigonol, yn gyflawn ac nid yn ormodol.

Mae creu data ategol am y cofnod yn sefydlu cyd-destun cofnod a'i le mewn amser. Dyma'r gofynion data ategol gofynnol:

- awdur/creawdwr;
- teitl y cofnod;
- pwnc ac allweddeiriau;
- disgrifiad;
- dyddiad creu;
- fformat (rhaid cadw cofnodion electronig mewn fformat sy'n eu galluogi i gael mynediad (gan gynnwys cynllun, fformatio ac elfennau eraill) yn gyfan);
- fersiwn;
- marcio diogelwch – telerau dosbarthu;
- dylai'r cysylltiadau rhwng y cofnodion, sy'n dogfennu cyfres o weithgarwch y mae'n rhaid eu cadw e.e. neges bost electronig sy'n ateb i un blaenorol, gynnwys y neges flaenorol neu'r cyfeiriad ati.

Efallai y bydd adegau pan fydd angen cadw cofnodion i adlewyrchu trefn y digwyddiadau'n gywir, er enghraifft wrth ystyried unrhyw wallau a wneir wrth brosesu data personol.

Gallai cadw cofnodion o wallau gwreiddiol a wnaed ac unrhyw gywiriadau a wnaed wedyn fod er budd gorau unigolion.

Mae'n bwysig cadw cofnodion cyflawn. Mae cofnodion anghyflawn nid yn unig yn lleihau eu gwerth gwybodaeth, gallant hefyd fod yn gamarweiniol gadarnhaol ac o bosibl yn beryglus. Efallai na fydd y defnyddiwr yn ymwybodol o wybodaeth, gwelliannau neu eglurhad ychwanegol pwysig a allai newid ystyr y cofnod yn sylfaenol. Byddai cofnod cywir yn caniatáu i rywun yn ddiweddarach gael dealltwriaeth gyflawn o sut y gwnaed penderfyniad.

10. Cysondeb

Wrth greu system cadw cofnodion neu reoli ym mha fformat bynnag, mae'n hanfodol bod lefel o unffurfiaeth yn cael ei chyflawni fel nad yw newidiadau'n cael fawr ddim effaith, os o gwbl, ar gysondeb cadw cofnodion.

Mae'r rheolau a'r offer a sefydlwyd ar gyfer systemau papur traddodiadol yr un mor berthnasol i reoli gwybodaeth electronig naill ai fel systemau ffeilio gyriant a rennir, e-bost neu gynnwys electronig neu systemau rheoli cofnodion.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen dull rhagweithiol, cyson a chynhwysfawr.

11. Rheoli Fersiynau

Mae'n debygol y bydd angen gwneud diweddariadau i gofnod dros amser. Ni ddylid gwneud newidiadau i gynnwys y cofnod gwreiddiol ar ôl iddo gael ei ddatgan fel fersiwn o'r ddogfen.

Dylid gwneud unrhyw ddiwygiadau, addasiadau a chywiriadau pellach a'u cadw fel fersiwn newydd o'r cofnod a sicrhau bod y fersiwn wreiddiol yn cael ei chadw fel yr oedd ar adeg cael ei datgan yn fersiwn o'r ddogfen.

Bydd angen i'r ysgol gadw rheolaeth dros fersiynau newydd o'r cofnod a gallant wahaniaethu pan fydd drafftiau dilynol yn dod yn fersiynau newydd o'r ddogfen. Rhaid marcio fersiynau drafft o ddogfennau yn glir fel drafft.

Os oes sawl drafft a bod fersiwn derfynol yn cael ei chadw, dylid defnyddio rheolaeth fersiwn glir a chyson.

12. Cofnodi Data

Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion yn y fath fodd fel y gall yr unigolyn dan sylw eu harolygu. Gall y llysoedd neu unrhyw swyddog cyfreithiol archwilio'r wybodaeth rywbryd yn y dyfodol.

O dan yr *UK GDPR*, mae gan unigolion yr hawl i gael mynediad - yr hawl i wneud cais gan wrthrych y data am eu gwybodaeth bersonol. Dylid cadw'r holl gofnodion mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â gofynion ceisiadau gan wrthrych y data. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â *Pholisi Ceisiadau gan Wrthrych y Data Ysgolion*.

Dylai cofnodion fod yn gywir, yn ddiuedd, yn ddiamwys ac yn glir i'w dehongli/darllen. Os ceir gwybodaeth o ffynhonnell allanol, dylid cofnodi manylion y ffynhonnell a'r dyddiad a gafwyd yr wybodaeth.

Mae angen i'r ysgol ddangos yn rhagweithiol ei hatebolrwydd a'i safonau da o ran llywodraethu gwybodaeth.

Dim ond os yw'r corff priodol o gofnodion yn bodoli i brofi pa gamau a gymerwyd, pam y cawsant eu cymryd, ar awdurdod pwy, a beth oedd eu canlyniadau y mae cydymffurfiaeth yn bosibl. Dim ond gyda rheoli cofnodion yn effeithiol y mae hyn yn bosibl.

13. Hygyrchedd Cofnodion

Mae angen i gofnodion fod ar gael i bawb sydd angen cael mynediad atynt fel y gellir adalw gwybodaeth yn hawdd, yn briodol ac mewn modd amserol. Mae argaeledd gwybodaeth i staff ac unigolion fel ei gilydd yn dibynnu ar hygyrchedd yr wybodaeth honno.

Dim ond os caiff ei rheoli o'r man creu y gellir cael gafael ar wybodaeth. **Dim ond personau awdurdodedig sydd angen mynediad i'r wybodaeth benodol honno sydd â hawl i gyrchu'r cofnodion hynny.**

Bydd casglu data manwl yn caniatáu i ddefnyddwyr cofnodion presennol ac yn y dyfodol benderfynu a ydynt yn cynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt ai peidio. Mae deddfwriaeth fel yr *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018* yn rhoi mwy o bwysau ar yr ysgol i sicrhau bod gwybodaeth ar gael.

Rhaid cadw rhywfaint o wybodaeth yn gyfyngedig, er enghraifft, data personol a gwybodaeth am gontractau. Mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am reoli cofnodion yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau mynediad a allai fod yn berthnasol ac yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r cofnodion hynny.

14. Cadw Cofnodion

Bydd cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion*.

Mae'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion* yn darparu rhestr o gofnodion y sefydlwyd dyddiadau dinistrio a bennwyd ymlaen llaw ar eu cyfer. Mae'n diffinio pa mor hir y mae angen cadw cofnodion er mwyn bodloni'r holl ddibenion gweithredol, cyfreithiol a rheoliadol ac i helpu i gydlynu eu gwaith cynnal a chadw, gwaredu neu gadw sy'n deillio o hynny.

Ni ddylid cadw gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth categori arbennig) am fwy o amser nag sydd angen. Bydd faint o amser y dylid cadw data yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gan gynnwys y rhesymau pam y cafwyd yr wybodaeth bersonol.

Bydd rheoli cofnodion yn effeithiol, a dinistrio'r rhai nad ydynt yn ofynnol gan yr ysgol mwyach yn sicrhau nad yw'r ysgol yn cadw data personol am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol.

Dylai'r ysgol ddilyn yr *Cyfnodau Cadw Ysgolion* sy'n nodi'r cyfnod cadw perthnasol ar gyfer gwahanol fathau o wybodaeth a dogfennau personol. Os oes unrhyw ansicrwydd, dylai'r ysgol ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gael arweiniad.

Gellir dewis canran fach o gofnodion yr ysgol i'w cadw'n barhaol fel rhan o'r archifau ac ar gyfer ymchwil hanesyddol. Dylai'r ysgol gyfeirio at y *Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifau Ynys Môn* i gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar adneuo cofnodion yn yr Archifau.

Gellir dod o hyd i'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion* ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

15. Dosbarthiad Gwybodaeth Bersonol

Bydd yr ysgol yn defnyddio rheolaethau dosbarthiadau gwybodaeth priodol ar gyfer gwybodaeth bersonol a sensitif yn seiliedig ar y termau dosbarthu data (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL-SENSITIF).

Pennir y categori dosbarthu gwybodaeth ar y niwed a allai ddeillio o golli neu ddatgelu'r wybodaeth heb awdurdod. Categori dosbarthu gwybodaeth sy'n pennu sut y mae'n rhaid diogelu/ymdrin â gwybodaeth.

Awduron ac anfonwyr dogfennau sy'n gyfrifol am neilltuo categori dosbarthu i'r dogfennau y maent yn eu creu a'u rhannu a marcio'r ddogfen yn amddiffynnol.

Categori Dosbarthiad	Effaith os caiff yr wybodaeth ei cholli neu ei datgelu i bobl anawdurdodedig	Enghreifftiau o Wybodaeth
SWYDDOGOL	Bydd bron yr holl wybodaeth y mae'r ysgol yn dod i gysylltiad â hi yn ystod y diwrnod gwaith yn wybodaeth SWYDDOGOL. Fodd bynnag, mae gwybodaeth SWYDDOGOL hefyd yn cynnwys data personol sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd na fyddai, pe bai'n cael ei ddatgelu heb ganiatâd neu golled, yn achosi niwed neu ofid i unrhyw unigolyn.	Adroddiadau rheolaidd, adroddiadau blynyddol cyhoeddedig, data all-droi ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol, gwybodaeth sydd ar gael am ddim e.e. gwybodaeth ar wefan yr ysgol; enwau cyflogeion a theitlau swyddi a gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif.
SWYDDOGOL SENSITIF	<ul style="list-style-type: none"> • Achosi niwed neu ofid i unigolion; • Torri cyfyngiadau statudol ar ddatgelu gwybodaeth; • Byddai'n arwain at doriad hyder i drydydd partion (lle nad yw gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd); • Achosi niwed neu ofid sylweddol i unigolion neu grwpiau; • Rhagfarnu'r ymchwiliad neu hwyluso'r gwaith o gomisiynu troseddau. 	Gwybodaeth am ddisgyblion neu staff y mae gan yr ysgol ddyletswydd gofal ar eu cyfer e.e. enwau, cyfeiriadau, cofnod disgyblion.

Pan benderfynir pa gategori dosbarthu sy'n berthnasol i wybodaeth, mae angen cyfleu hyn drwy arddangos y categori dosbarthu ar y ddogfen neu'r ffeil. Mae angen rhoi hyn mewn man amlwg, er enghraifft:

- dogfennau- pennawd pob tudalen;
- ffeiliau a ffolderi - ar feingefn neu flaen y ffolder;
- negeseuon e-bost- yn y pennawd pwnc;
- cronfeydd data - lle bo'n bosibl, marcio gwybodaeth a gynhyrchwyd neu a grëwyd o gronfeydd data neu ddefnyddio meddalwedd adrodd.

16. Statws Cofnod

Bydd yr ysgol yn defnyddio'r statws canlynol i farcio cofnodion yn ôl pwysigrwydd:

Hanfodol	Cofnodion sy'n hanfodol i weithrediad parhaus yr ysgol a'r cofnodion hynny sy'n diogelu hawliau a buddiannau'r ysgol, cyflogeion, disgyblion a'r cyhoedd e.e. contractau.
Pwysig	Cofnodion sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithrediad parhaus yr ysgol ac a all gynnwys gwybodaeth i gefnogi cofnodion hanfodol neu a allai fod o werth hanesyddol e.e. polisi.
Defnyddiol	Cofnodion a all fod yn hanfodol neu'n bwysig i aelodau staff ond nad ydynt o fawr o werth i'r ysgol. Gall fod o werth hanesyddol e.e. gohebiaeth.
Ddim yn hanfodol	Gohebiaeth dros dro, yn gwbl wybodaethol gyda gwerth amser byr iawn. Yn cynnwys cyhoeddiadau mewnol, hysbysiad o weithgareddau gweithwyr, gweithgareddau busnes arferol a gwahoddiadau i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith.

17. Storio Cofnodion yn Ddiogel

Rhaid cadw cofnodion mewn lleoliad diogel gyda mynediad ar gael i bobl awdurdodedig sydd angen mynediad i'r wybodaeth benodol honno yn unig. Rhaid diogelu'r holl wybodaeth bersonol a'i chadw'n ddiogel er mwyn atal colled, camddefnydd neu ddifrod.

Bydd yr ysgol yn storio cofnodion papur ac electronig yn ddiogel gyda rheolaethau amgylcheddol priodol gyda lefelau uwch o ddiogelwch o amgylch categorïau arbennig o ddata personol.

Dylid cadw gwybodaeth bersonol dan glo lle bynnag y bo'n bosibl. Dylai unrhyw ddroriau, cypyrddau, cabinetau, ystafelloedd storio neu gynwysyddion storio fod yn gadarn ac wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Dylid cadw dogfennau mewn lleoliad diogel a hygyrch sy'n cael ei ddiogelu rhag llifogydd, lleithder ac elfennau eraill. Efallai y bydd angen cadw rhai dogfennau mewn cynwysyddion aerdymheru i'w diogelu rhag difrod amgylcheddol.

Os cedwir dogfennau'n electronig, mae angen i fesurau diogelwch technegol priodol fod ar waith ar bob dyfais fel ffugenwi, amgryptio neu ddiogelu cyfrinair.

Os caiff cofnodion eu symud neu eu cludo o'r ysgol i leoliadau eraill, mae'n bwysig sicrhau bod rhagofalon yn cael eu cymryd i leihau'r posibilrwydd y caiff y rhain eu colli neu eu dwyn.

Dim ond pan fydd yn gwbl angenrheidiol y dylid cludo gwybodaeth bersonol.

18. Gwaredu Cofnodion yn Ddiogel

Mae pwysigrwydd gwaredu cofnodion yn amserol (gan gynnwys logio cofnodion a waredwyd) yn unol â'r cyfnodau cadw a bennwyd, a'r gyfraith, yn egwyddor sylfaenol o reoli cofnodion yn dda.

Bydd cofnodion nad oes eu hangen mwyach yn unol â'r *Cyfnodau Cadw Ysgolion* yn cael eu dileu'n barhaol o systemau gwybodaeth yr ysgol a bydd unrhyw gopiâu caled o wybodaeth bersonol yn cael eu dinistrio mewn modd diogel cyn gynted â phosibl.

Gellir dinistrio gwybodaeth bersonol yn ddiogel drwy ddefnyddio peiriant rhwygo papur sy'n torri ar draws neu drwy drefniadau gwaredu gwastraff diogel. Gall yr ysgol ddefnyddio trydydd parti priodol i waredu cofnodion yn ddiogel ar ran yr ysgol. Os felly, bydd yr ysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti ddarparu gwarantau digonol ei bod yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data (e.e. drwy ddarparu Tystysgrif Ddinistrio).

Ni fydd data personol yn cael ei adael mewn lleoliad ansicr tra yn y broses o gael ei ddinistrio'n ddiogel. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei diystyru drwy wastraff cyffredinol, ailgylchu na thrwy sgip. **Rhaid** defnyddio dull diogel ym mhob achos lle ceir data personol.

Gall copïo gael effaith ar waredu cofnodion yn effeithlon ac yn amserol. Mae'n hanfodol bod copïau o gofnodion yn cael eu cadw cyn lleied â phosibl a bod y rhain yn cael eu dinistrio ar ôl i'w hanghenion busnes fynd heibio.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod proses ar waith i sicrhau na fydd cofnodion gwerthfawr yn cael eu dinistrio mewn camgymeriad, neu fod y cofnodion anghywir yn cael eu cadw.

19. Cofnodion Disgyblion

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion ar bob disgybl.

Pan fydd disgybl yn trosglwyddo rhwng ysgolion mae cofnod yr ysgol hefyd yn cael ei drosglwyddo. Dylai Ffeil Drosglwyddo Gyffredin (CTF) fynd gydag ef/hi. Rheolir cynnwys y CTF yn electronig ac mae'n cynnwys data sylfaenol a gedwir fel arfer ar y System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS).

O dan *Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004*, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad i gofnodion addysg swyddogol plant sy'n mynychu ysgol a gynhelir. Dylid gwneud ceisiadau'n ysgrifenedig i'r Pennaeth. Rhaid i gais am gofnod addysgol gael ymateb gan yr ysgol o fewn 15 diwrnod ysgol.

20. Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)

Bydd yr ysgol yn cadw cofnodion ysgrifenedig o weithgareddau prosesu fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys:

- enw a manylion yr ysgol; manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ac unrhyw reolwyr data ar y cyd eraill os yw'n berthnasol;
- dibenion y prosesu;

- disgrifiad o'r categorïau o unigolion a chategorïau o ddata personol a brosesir;
- categorïau derbynwyr data personol;
- lle y bo'n bosibl, y cyfnodau cadw ar gyfer y gwahanol categorïau o ddata personol;
- lle bo'n bosibl, disgrifiad cyffredinol o fesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

Bydd yr ysgol hefyd, fel rhan o'r cofnod o weithgareddau prosesu, yn dogfennu neu'n darparu dolen i ddogfennaeth ar:

- gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer Hysbysiadau Preifatrwydd;
- cofnodion cydsyniad;
- contractau rheolydd-prosesydd;
- lleoliad data personol;
- Aseidiadau Effaith Diogelu Data (DPIAs);
- digwyddiadau diogelwch data personol;
- data categori arbennig neu ddata euogfarn droseddol a throsedd.

Os yw'r ysgol yn prosesu data categori arbennig neu ddata euogfarn a throsedd, cedwir cofnodion ysgrifenedig o:

- y diben(ion) perthnasol y mae'r prosesu'n digwydd ar eu cyfer, gan gynnwys (lle bo angen) pam y mae'n angenrheidiol at y diben hwnnw;
- y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu; a
- a yw'r ysgol yn cadw ac yn dileu'r wybodaeth bersonol yn unol â'r ddogfen bolisi ac, os nad yw, y rhesymau dros beidio â dilyn y polisi.

Bydd yr ysgol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r wybodaeth bersonol sy'n cael ei phrosesu a'r dogfennau diweddaraf yn unol â hynny. Gall hyn gynnwys:

- cynnal archwiliadau gwybodaeth i ganfod pa wybodaeth bersonol sydd gan yr ysgol;
- creu llifau map data ar gyfer gwahanol brosesau gwybodaeth;
- dosbarthu holiaduron a siarad â holl staff yr ysgol i gael darlun cyflawn o weithgareddau prosesu'r ysgol; a
- adolygu polisiâu, gweithdrefnau, contractau a chytundebau i fynd i'r afael â meysydd fel cadw, diogelwch a rhannu data.

Bydd yr ysgol yn dogfennu gweithgareddau prosesu ar ffurf electronig fel y gellir ychwanegu, dileu a diwygio gwybodaeth yn hawdd fel bod y cofnod o weithgareddau prosesu yn cael ei gadw'n gywir ac yn gyfredol.

Mae templed ar gyfer *Cofnodion Gweithgareddau Prosesu* a chanllawiau cysylltiedig ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu. **Rhaid** i'r ysgol fel Rheolydd Data gadw *Cofnodion o Weithgareddau Prosesu*.

21. Rhestr o Asedau Gwybodaeth

Bydd y Pennaeth yn sefydlu ac yn cynnal *Rhestr o Asedau Gwybodaeth*. Mae'r *Rhestr o Asedau Gwybodaeth* yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â pha ddata a gedwir, lle caiff ei

storio, sut y caiff ei ddefnyddio, pwy sy'n gyfrifol ac unrhyw reoliadau neu gyfnodau cadw pellach a allai fod yn berthnasol.

Mae templed *Rhestr o Asedau Gwybodaeth* ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

22. Monitro Cydymffurfiaeth

Bydd y Pennaeth yn cynnal archwiliad diogelwch gwybodaeth diogelu data unwaith bob hanner tymor. Fel rhan o'r archwiliad, bydd gwiriadau'n cael eu gwneud ar reoli cofnodion a diogelwch. Bydd y Pennaeth hefyd yn monitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau rheoli cofnodion. Mae templed *Archwiliad Diogelwch Gwybodaeth Diogelu Data Ysgolion* ar gael ar y dudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn monitro cydymffurfiaeth a pherfformiad yr ysgol yn erbyn y polisi hwn a bydd yn monitro trefniadau rheoli cofnodion yn yr ysgol.

23. Adferiad Trychinebau a Pharhad Busnes

Bydd yr ysgol yn adolygu'n rheolaidd y data personol a gedwir a'r ffordd y caiff ei ddefnyddio er mwyn asesu pa mor werthfawr, sensitif neu gyfrinachol ydyw. Bydd yr ysgol hefyd yn asesu'r difrod neu'r trallod a allai gael ei achosi pe bai'r data'n cael ei beryglu.

Mae gan yr ysgol Gynllun Adfer a Pharhad Trychinebau ar waith os bydd trychineb. Mae hyn hefyd ar waith i sicrhau, os bydd digwyddiad corfforol neu dechnegol neu fethiant offer neu systemau TG (gan gynnwys caledwedd a meddalwedd), y gellir adfer argaeledd a mynediad at wybodaeth bersonol mewn modd amserol er mwyn osgoi colli data neu ddiffyg argaeledd data.

Mae hyn yn cynnwys adnabod cofnodion sy'n hanfodol i barhau i weithredu neu ailgyfansoddi busnes yr ysgol. Hefyd, lle bo'n bosibl, mae disgrifiad cyffredinol o fesurau diogelwch technegol a sefydliadol yr ysgol wedi'u cynnwys yng Nghofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn gwneud copiâu wrth gefn o ddata sy'n cael ei storio'n electronig fel mater o drefn er mwyn helpu i adfer gwybodaeth os oes angen.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod cofnodion electronig yn cael eu diogelu yn ystod newid technolegol e.e. yn ystod mudo i feddalwedd neu lwyfannau caledwedd newydd.

24. Hyfforddiant Staff

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn darparu hyfforddiant rheoli cofnodion i staff perthnasol yr ysgol.

25. Mynd yn Erbyn y Polisi

Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol.

Gall hyn arwain at roi'r unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a'r ysgol mewn perygl.

Os bydd gweithiwr nad yw'n gyflogai yn mynd yn erbyn polisi hwn, efallai y bydd eu contract yn cael ei derfynu ar unwaith.

26. Trefniadau Adolygu Polisi ac Arolygiaeth

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Swydddog Diogelu Data Ysgolion bob tair blynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisi neu ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi gael ei ddiweddarau'n gynt.

Caiff y polisi hwn ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a chaiff ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd Tîm Arweinyddiaeth yr ysgol a'r corff llywodraethu yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth a gynhwysir yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swydddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Mae rhagor o wybodaeth am reoli cofnodion ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

ATODIAD A

Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion

Rhestr Wirio'r Pennaeth

Rhif	Camau Gweithredu	A oes gan yr ysgol hyn ar waith (Oes/Nac Oes)/ Sylwadau/Dyddiadau etc.)
1	Mae'r fersiwn gyfredol o'r <i>Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion</i> wedi'i mabwysiadu'n ffurfiol gan Gorff Llywodraethu'r ysgol.	
2	Mae proses ar waith i fonitro cydymffurfiaeth yr ysgol â'r polisi hwn yn barhaus.	
3	Cynhelir archwiliadau mewnol rheolaidd sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisi hwn.	
4	Caiff trefniadau diogelwch sy'n ymwneud â data personol eu monitro'n rheolaidd.	
5	Mae'r holl staff yn cydymffurfio â'r <i>Cyfnodau Cadw Ysgolion</i> ac mae'r ysgol yn cynnal gweithgareddau cadw tŷ rheolaidd.	
6	Mae Cynllun Adfer a Pharhad Trychinebau ar waith.	
7	Mae lefelau mynediad priodol ar gyfer unigolion penodol ar waith ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd.	
8	Defnyddir lefelau dosbarthu a statws dogfennau yn briodol.	
9	Defnyddir rheolaethau fersiwn ar gyfer pob cofnod.	
10	Cedwir Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA).	
11	Cedwir Rhestr o Asedau Gwybodaeth.	
12	Mae'r holl gofnodion yn gyflawn, yn gywir ac yn cael eu cynnal.	
13	Caiff data personol ei ddinistrio a'i waredu mewn modd diogel bob amser.	

14	Nid yw data personol yn cael ei adael mewn lleoliad anniogel tra yn y broses o gael ei ddinistrio'n ddiogel.	
15	Wrth ddefnyddio trydydd parti i waredu cofnodion yn ddiogel, darperir Tystysgrif Ddinistrio i'r ysgol fel tystiolaeth.	
16	Gellir ail-wneud yr holl gofnodion yn hawdd, yn briodol ac mewn modd amserol.	
17	Cedwir dogfennau papur mewn lleoliad diogel a hygyrch sy'n cael ei ddiogelu rhag llifogydd, lleithder ac elfennau eraill. Defnyddir cynwysyddion aerdyn mewn amgylchiadau perthnasol i ddiogelu dogfennau rhag difrod amgylcheddol.	
18	Mae mesurau diogelwch technoleg priodol ar waith ar bob dyfais sy'n cadw cofnodion electronig.	
19	Cynhelir archwiliad diogelwch gwybodaeth diogelu data unwaith bob hanner tymor.	

Content	Page
1. Policy Statement	22
2. Scope	22
3. Legislation, Guidance and Policies	23
4. Definitions	23
5. Responsibilities	25
5.1 School Governing Body	25
5.2 Headteacher (and/or Person Responsible for Data Protection within the School)	25
5.3 All Staff within the School	25
5.4 Schools Data Protection Officer	26
6. Records Management Policy: Five Key Points	26
7. Principles of Records Management	26
8. Benefits of Effective Records Management	27
9. Accuracy and Relevance	28
10. Consistency	29
11. Version Control	29
12. Data Recording	29
13. Accessibility of Records	30
14. Records Retention	30
15. Classification of Personal Information	31
16. Record Status	32
17. Secure Storage of Records	32
18. Secure Disposal of Records	32
19. Pupil Records	33
20. Records of Processing Activities (ROPA)	33
21. Information Asset Register	35
22. Compliance Monitoring	35
23. Disaster Recovery and Business Continuity	35
